Enw

DARLLENWCH
Mathew 2: 13-23

ADNOD ALLWEDDOL
Mathew 2: 15

Gofynnwch am help i chwilio am yr adnod hon

Stori 4 Ffoi i'r Aifft

Ydych chi erioed wedi aros am amser hir am newyddion arbennig? Roedd Herod wedi bod yn disgwyl i'r Doethion ddod nôl. Ond ddaethon nhw ddim! Roedden nhw wedi ufuddhau i Dduw ac wedi mynd adref yn syth. Aeth Herod yn gynddeiriog a phenderfynodd bod rhaid lladd pob bachgen bach ym Methlehem oedd dan ddwy flwydd oed! Dyna beth ofnadwy i'w wneud! A'r cyfan am fod Herod yn poeni y byddai'r Plentyn hwn, o bosibl, yn dod yn Frenin yn ei le un diwrnod! Unwaith eto, siaradodd Duw â Joseff mewn breuddwyd. Dywedodd wrth Joseff am ddianc gyda'i deulu i'r Aifft. Byddai'n ddiogel yno hyd nes y byddai Duw'n dweud wrtho am ddychwelyd.

C Rhowch linell drwy'r atebion anghywir i'r cwestiynau canlynol.

Pwy ufuddhaodd i Dduw a mynd adref yn syth? **Herod / Joseff / Y Doethion**

Pwy benderfynodd ladd y plant? **Herod / Joseff / Y Doethion**

Wrth bwy y dywedodd Duw am fynd i'r Aifft? **Herod / Joseff / Y Doethion**

6

Ymhen amser, bu farw Herod. Dywedodd Duw wrth Joseff ei bod bellach yn ddiogel iddynt fynd nôl i Israel. Felly, gadawodd Joseff, Mair ac Iesu wlad yr Aifft ac aethant i Nasareth.

C I ble'r aeth Joseff a'i deulu? N __ __ __ __ __ __ .

2



Dyma ble tyfodd Iesu'n ddyn, gan blesio Ei deulu, Ei gymdogion ac, yn bwysicaf oll, Duw, Ei Dad.

Gannoedd o flynyddoedd cyn geni Iesu, roedd y Beibl wedi rhagfynegi (dweud am) Ei enedigaeth. Roedd Duw wedi trefnu i'w Fab gael Ei eni ym Methlehem. Gwyddai Duw y byddai Herod yn ceisio Ei ladd. Gwyddai Duw hefyd y byddai Iesu yn treulio peth amser yn yr Aifft. Roedd y Beibl wedi rhagfynegi:

"O'r Aifft y gelwais fy Mab."

Lliwiwch y geiriau.

2

Drwy'r cyfan i gyd, roedd Duw yn gofalu am Ei Fab. Roedd Duw yn fodlon gyda Mair a Joseff hefyd am iddyn nhw ufuddhau i'r cyfan roedd Duw wedi'i orchymyn.

Yn y GRID GEIRIAU, rhowch gylch o gwmpas yr atebion i'r cwestiynau canlynol.(Gallant fod wedi eu hysgrifennu i fyny, i lawr, neu tuag yn ôl!).

S	J	O	S	E	FF	O
A	C	B	H	L	B	D
I	B	E	R	I	A	M
FF	G	I	P	T	B	N
T	R	B	C	O	W	G
I	A	L	F	J	U	P
U	D	O	G	I	D	W

1) Pwy oedd gŵr Mair?
2) I ba wlad y dygwyd Iesu er mwyn iddo fod yn ddiogel?
3) Pwy oedd gwraig Joseff?
4) Pwy gadwodd y teulu'n ddiogel?
5) Pa lyfr sy'n rhagfynegi genedigaeth Iesu?

10

Mae'r Tad wedi anfon Ei Fab yn Waredwr y byd.

1 Ioan 4: 14

Nadolig Llawen iawn i chi

cyfanswm

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

SAFON 2 B12

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120